**YSGOL PENCAE**
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
*Follow us on Twitter*

**Cylchlythyr Rhif 19/*Newsletter No 19***
**01.02.19**

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian,*

## Catagoreiddio*:* Llywodraeth Cymru / *Categorisation*: *Welsh Government*

Unwaith yn rhagor eleni, rydym yn falch o rannu gyda chi ein bod wedi cael ein gosod ar y radd uchaf - 'gwyrdd' fel rhan o system gategoreiddio cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Ewch i'r wefan Fy Ysgol Leol er mwyn darllen mwy.

*Once again this year, we are proud to share with you that we have been placed on the highest grade - 'green', as part of Welsh Government national categorisation system. Please visit My Local School website in order to gain further information.*

## Cogurdd (cystadleuaeth goginio/*cooking competition*) – yr Urdd:

Roedd pedair cogyddes dawnus yn coginio cibabs gyda phesto yn neuadd yr ysgol nos Iau. Enillydd ein rownd cyntaf eleni oedd Libby Morgan o flwyddyn 6. Bydd hi nawr yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd sirol. Pob lwc iddi. Hoffem ddiolch i Francesco Furci am feirniadu, yn ogystal â chynnig cyngor, arweiniad a chanmoliaeth i'r holl gystadleuwyr.

*Four talented chefs were busy preparing vegetable kebabs with pesto in the hall on Thursday evening. Our winner this year is Libby Morgan, year 6. She will now go on to represent the school in the county round. Good luck to her. We would like to thank Francesco Furci for judging and offering advice, support and praise to our contestants.*



## Cystadlaethau Ysgrifennu yr Urdd / Urdd Writing Competition

Rydym yn awyddus i bob disgybl (bl2-6) i gystadlu yn y cystadlaethau ysgrifennu yn yr Urdd eleni. Mae'r cyd-destunau isod yn ffocws yn ein gwaith iaith yn y dosbarth ond, mae hefyd croeso i'r disgyblion ysgrifennu ail ymgais adref. Gofynnwn i unrhyw ddarnau (wedi'u labelu'n glir, gweler rheolau isod) gyrraedd yr ysgol erbyn **11.02.19.** Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar y ddolen isod:

http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/cystadlu/gwaith-cartref/llenyddiaeth-chyfansoddi/

*We are keen for every child from year 2-6 to compete in the writing competitions this year as the Urdd Eisteddfod is in our home city. Therefore, the themes below will be our language focus in our lessons in school. But if you would like your child to complete a second piece at home or a different genre please send their work to school (clearly labelled – see rules below) by **11.02.19.** For more information, look at the link below:*

**http://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/competitions/home-work/llenyddiaeth-chyfansoddi/**

| **Themâu Themes** | **Bl2 ac iau** ***Yr2 and younger*** | **Bl3 a 4** ***Yr 3 and 4*** | **Bl 5 a 6** ***Yr 5 and 6*** |
|---|---|---|---|
| **Barddoniaeth /** ***Poetry*** | Pen-blwydd | Ffrindiau | Seren |
| **Rhyddiaith /** ***Prose*** | Amser Chwarae | Tegan | Llong Ofod |

## Cystadlaethau Perfformio yr Eisteddfod / Eisteddfod Performing Activities

Mae ymarferion wedi dechrau ar gyfer cystadlaethau perfformio yr Eisteddfod. Eleni, rydym yn bwriadu cystadlu mewn amryw o gystadlaethau. Bydd llawer o weithgareddau yn ystod amser ysgol (amseroedd chwarae a chinio) yn ogystal ag wedi oriau ysgol. Byddwch yn derbyn llythyr ddechrau wythnos nesaf yn nodi unrhyw ymarferion wedi ysgol, bydd rhain yn aros yn gyson o wythnos i wythnos. Mae'n hanfodol bod eich plant yn gwneud pob ymdrech i fod yn y rhan fwyaf o'r ymarferion.

*We have begun to practise for the performing competitions in the Eisteddfod. This year, we are competing in various competitions. There will be a lot of practices – during the school day (play times and lunch times) and after school. You will receive a letter early next week informing you of after school practices. We will try and keep these consistent from week to week. It is imperative that your child makes the effort to be in most practices.*

## Gwasanaeth Blwyddyn 4 *Assembly*

Rieni blwyddyn 4, cofiwch am wasanaeth dosbarth eich plentyn - dydd Mercher nesaf, y **6ed o Chwefror**. Bydd y gwasanaeth yn dechrau am 2.50pm.



PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD

*Year 4 parents, remember your child's class assembly - next Wednesday, the **6th of February**. The assembly will begin at 2.50pm.*

## *CRhA / PTA*

Yn anffodus, o ganlyniad i'r eira a'r rhew neithiwr gohiriwyd y cyfarfod CRhA. Mae'r cyfarfod wedi ei ail-drefnu i nos Iau nesaf: 07/02/19 am 8yh.

*Unfortunately, due to the snow and icy conditions last night, the PTA meeting was cancelled. The meeting had been re-arranged to next week: 07.02.19 at 8pm.*

## Gât yr ysgol / *School Gate*

Yn ddiweddar rydym wedi profi problemau gyda ein gât drydanol felen. Rydym wedi gorfod cysylltu gyda chwmni arbenigol sawl gwaith ac mae wedi dod yn amlwg mai un rheswm dros y problemau yw bod y gât yn cael ei dal ar agor gan wrthrychau, e.e. conau. Gofynnwn yn garedig i chi beidio gwneud hyn. Mae'r gât wedi ei rhaglenni i aros ar agor ar wahanol adegau o'r dydd ac er diogelwch eich plant mae'n hanfodol nad yw'r systemau yma yn chwalu.

*Recently, we have had various problems with our electronic yellow gate. We have had to call a specialised company various times and it has been drawn to our attention that one reason for this is that the gate is being wedged open by different objects, e.g. cones. We ask you not to do this. The gate is programmed to stay open at specific times during the day and for the safety of your children it is crucial that these systems aren't affected.*

## *Clybiau Ar Ôl Ysgol* / After School Clubs

| **Wythnos / *Week:* 01.02.19** | **Clybiau / Clubs** | | |
|---|---|---|---|
| **Dydd Llu** | **15.30pm – 17.00pm**<br>Côr / *Choir* | | |
| **Dydd Mawrth** | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Pêl-droed / *Football Club*<br>(Cymysg / Mixed Bl3-6) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Dancefit<br>(aelodau yn unig / *members only*) | |
| **Dydd Mercher** | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Jiwdo / *Judo Club (Bl1-6)* | | |
| **Dydd Iau** | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Hwb<br>(aelodau yn unig / *members only*) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Ffrangeg<br>(aelodau yn unig / *members only*) | **15.30pm – 16.30pm**<br>Clwb Pêl-rwyd<br>*Netball Club*<br>(Cymysg / Mixed Bl3-6) |
| **Dydd Gwener** | **15.30pm – 17.00pm**<br>Cyflwyniad Dramatig / *Dramatic Performance*<br>Aelodau yn unig / *Members only*<br>***BYDD Y PLANT YN CAEL GWYBOD WYTHNOS NESAF)* | | |



PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD

**Dyddiadau pwysig / *Important dates***

| ***Dyddiad / Date*** | **Gweithgaredd / *Activity*** |
|---|---|
| *06.02.19* ***2.50pm*** | Gwasanaeth Dosbarth Blwyddyn 4 *Class Assembly* |
| *13.2.19* | *Diwrnod DPP clwstwr Ysgol Glantaf – dim ysgol i'r disgyblion*<br>*Ysgol Glantaf cluster CPD Day - no school for the pupils* |
| *15.02.19:* **2.50pm** | Gwasanaeth Agored / *Open Assembly* |
| *18.02.19* | CRhA / *PTA*: Noson Ffilm / *Film Night* |
| *25.02.19 – 01.03.19* | Hanner Tymor / *Half Term* |
| *14.03.19* | Eisteddfod offerynnol (yn ystod y diwrnod ysgol)<br>*Instrumental Eisteddfod(during the school day)* |
| *18.03.19* ***6.30pm*** | Blwyddyn 4: Cyflwyniad Maes y Fron *presentation* |
| *22.03.19* **2.50pm** | Gwasanaeth Agored / *Open Assembly* |
| *23.03.19* | Eisteddfod Gylch Yr Urdd - mwy o fanylion i ddilyn<br>*Area Urdd Eisteddfod – more details to follow* |
| *27.03.19 & 28.03.19* | Noson Rieni: Dosbarth Derbyn – Blwyddyn 6<br>*Parents Evening: Dosbarth Derbyn – Year 6* |
| *06.04.19* | Eisteddfod Sir yr Urdd – mwy o fanylion i ddilyn<br>*County Urdd Eisteddfod – more details to follow* |
| 10.04.19 – 12.04.19 | B4 – Maes y Fron |
| 29.04.19 | Dyddiad cau Celf a Chrefft yr Urdd<br>*Closing date for the Arts and Crafts Urdd Competition* |
| 07.05.19 – 14.05.19 | B2 – B6: Profion Cenedlaethol/ *National Tests* |
| *28.06.19* | Mabolgampau / *Sports Day* |
| *01.07.19 – 04.07.19* | Wythnos Feicio Bl5 / *Yr5 Cycling Week* |
| 19.07.19 | Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd / *Last day of the academic year* |

Siwan Dafydd
Pennaeth Dros Dro



PSQM Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD